**Y Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad STD 05-01 (cofnodion drafft)**

Dyddiad: 12fed Rhagfyr 2001 am 09.30 o’r gloch

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)
Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Christine Gwyther, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Gareth Jones, Conwy
Gwenda Thomas, Castell-nedd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Karen Sinclair, De Clwyd

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc y Pwyllgor
Steve George, Dirprwy Glerc y Pwyllgor
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol i Swyddfa’r Llywydd

*Arall*

Richard Penn, Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau cychwynnol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Brian Hancock. Croesawodd y Cadeirydd hefyd Steve George a benodwyd yn ddiweddar yn Ddirprwy Glerc i’r Pwyllgor.

2. Cadarnhaodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod diwethaf (STD 04-01 min) yn gofnod cywir.

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac adolygiad o’r camau gweithredu yn deillio o STD-04-1**

Papur STD-05-01(1)

3. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem ac eglurodd i’r tri phwynt gweithredu a nodwyd yn y papur gael eu cyflawni.

4. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y Ddadl mewn Cyfarfod Llawn ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. Bu’r Ddadl yn gymharol fyr ac yn annadleuol. Teimlai fod hyn yn adlewyrchu’r boddhad cyffredinol ymhlith Aelodau’r Cynulliad â gwaith y Pwyllgor.

5. Byddai'r Seiri Rhyddion (Eitem 4) a Buddiannau Anuniongyrchol Aelodau (Eitem 5) yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

6. Nododd y Pwyllgor bapur yr Ysgrifenyddiaeth.

**Eitem 3: Diweddariad ar y Gofrestr o fuddiannau Aelodau**

Eitem ar Lafar

7. Darparodd y Clerc ddiweddariad ar y Gofrestr o Fuddiannau Aelodau. Byddai'r Adroddiad diweddaraf ar y Gofrestr yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y mis.

8. Aeth ati i egluro bod yr Ysgrifenyddiaeth yn chwilio am ffyrdd o wella mynediad y cyhoedd i'r Gofrestr. Ar hyn o bryd roedd ar gael ar ffurf copi caled i'w harchwilio yn y Swyddfa Gyflwyno. Roedd adroddiad cyfnodol ar y Gofrestr hefyd ar gael ar y Rhyngrwyd a'r Fewnrwyd. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth bellach yn ystyried y posibilrwydd o sicrhau bod fersiwn wedi'i ddiweddaru'n gyson o'r Gofrestr ar gael ar y Rhyngrwyd.

*Gweithredu:* Yr Ysgrifenyddiaeth i gyflwyno adroddiad ar gynnydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 4: Seiri Rhyddion**

Papurau STD-05-01(02)

10. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem gan groesawu Mr James Bevan (Prif Ysgrifennydd Taleithiol, Talaith Isadran Ddwyreiniol De Cymru) a Mr James Hamill (Cyfarwyddwr Cysylltiadau Prif Gyfrinfa Unedig Lloegr) i'r cyfarfod. Bu Mr Bevan a Mr Hamill yn cyflwyno tystiolaeth ger bron y Pwyllgor ym mis Ebrill ac fe'u gwahoddwyd eto i gyflwyno eu safbwyntiau i'r Pwyllgor ar ddau ddyfarniad diweddar gan y Llys Iawnderau Dynol Ewropeaidd (ECHR) a'u goblygiadau ar gyfer y Cynulliad.

11. Wedyn gwnaeth Mr Hamill gyflwyniad i'r Pwyllgor ar farn y Seiri Rhyddion ar y dyfarniadau. Eglurodd nad oedd gan y Seiri Rhyddion unrhyw wrthwynebiad i'r gofyniad i gofrestru. Yn hytrach, roeddent yn gwrthwynebu cael eu trin yn wahanol a'r amgyffrediad negyddol a oedd yn deillio o hyn. Er nad oedd yr un o'r dyfarniadau yn bendant, roedd o'r farn bod y ddau ohonynt yn atgyfnerthu'r ddadl i'r Seiri Rhyddion gael eu trin yn wahanol mewn modd annheg o blith sefydliadau brawdol yn y gofyniad i gael eu cynnwys ar Gofrestr y Cynulliad.

12. Dywedodd Mr Hamill yn yr achos cyntaf y canfu'r Llys nad oedd gofyniad cyfreithiol, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am swyddi cyhoeddus ddatgan nad oeddent yn aelodau o'r Seiri Rhyddion, yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Roedd sylwadau a wnaed fel rhan o'r dyfarniad hefyd wedi ei gwneud yn amlwg fod y gofyniad yn awgrymu

fod bod yn aelod o'r Seiri Rhyddion yn weithgaredd anghyfreithiol a'i fod wedi dwyn amheuaeth ar ddidueddrwydd y Seiri Rhyddion.

13. Yn yr ail achos, canfu'r Llys nad oedd y gofyniad i ddatgan aelodaeth o'r Seiri Rhyddion yn mynd yn groes i'r hawl i breifatrwydd. Fodd bynnag, roedd y Seiri Rhyddion wedi cael cyngor cyfreithiol yn awgrymu y byddai'r fath achos wedi mynd yn groes i'r hawl i breifatrwydd yn y DU yn sgîl effeithiau'r Ddeddf Diogelu Data. Dywedodd Mr Hamill fod eu cyngor cyfreithiol hefyd yn awgrymu bod sylwadau a wnaed fel rhan o'r dyfarniad wedi atgyfnerthu eu dadl bod y gofynion cyfredol yn annheg. Nododd hefyd fod dau ddyfarniad diweddar arall yn erbyn y DU, yn dilyn achosion a gyflwynwyd gan aelodau hoyw o'r lluoedd arfog, yn awgrymu nad oedd amgyffrediad yn rheswm digonol dros amrywio hawliau dynol.

14. Soniodd Mr Hamill hefyd am y canllawiau diweddar i awdurdodau lleol a oedd yn trin bob sefydliad brawdol yn yr un modd. Gallai'r Seiri Rhyddion gefnogi gofyniad tebyg yn y Cynulliad.

15. Ymhlith y pwyntiau a wnaed yn y drafodaeth yn dilyn cyflwyniad Mr Hamill roedd:

∗ bod y rhesymau dros ofynion cyfredol y Cynulliad yn cynnwys yr honiadau bod:

- y Seiri Rhyddion yn gymdeithas gyfrin, nad ydynt yn cyhoeddi eu haelodaeth;
- y Seiri Rhyddion yn dangos ffafriaeth amhriodol tuag at Seiri Rhyddion eraill; a
- drwy'r Llwon a wnânt, bod Seiri Rhyddion yn fwy teyrngar i'r Seiri Rhyddion nag i sefydliadau eraill neu'r wladwriaeth.

Wrth lunio barn ar pa un a ddylai gofynion y Cynulliad barhau, byddai angen i'r Pwyllgor ystyried i ba raddau:

- y mae'r honiadau yn wir; ac
- y mae'r honiadau yn unigryw i'r Seiri Rhyddion.

∗ nid oedd gan y Seiri Rhyddion gôd cyfrin. Fodd bynnag, mae ganddynt nifer o "brofion" sydd ond yn hysbys i gyd Seiri Rhyddion. Roedd y Seiri Rhyddion yn eu hystyried yn bennaf yn brofion integredd a chydnabyddiaeth yn hytrach na chyfrwng o gadw cyfrinachedd. Roeddent hefyd yn ddefnyddiol wrth adnabod aelodau o wledydd eraill. Ni fyddai cardiau aelodaeth mor ddefnyddiol gan nad oedd unrhyw ffurf ryngwladol gyffredin.

∗ ystyriwyd mai preifat oedd yr aelodaeth yn hytrach na chyfrin. Nid oedd aelodau unigol yn cael eu cosbi am ddatgelu eu haelodaeth ond nid oedd unrhyw reidrwydd arnynt i wneud hynny. Roedd nifer o sefydliadau eraill, fel undebau llafur, wedi methu neu wedi bod yn amharod i ddarparu manylion eu haelodau i'r Seiri Rhyddion.

∗ anfonwyd copi o lyfr blynyddol y Seiri Rhyddion yn nodi manylion pob cyfrinfa a swyddog ledled y DU, at bob llyfrgell gyhoeddus. Roedd

manylion defodau Saeryddol ar gael i'w prynu mewn siopau llyfrau. Fodd bynnag, nid oedd rhestr ganolog o aelodau ac ni fyddai gan gyfrinfeydd unigol o reidrwydd gofnodion cywir am bob un o'u haelodau.

* mae seiri rhyddion yn cymryd llw i gadw'r gyfraith. Nid ydynt yn talu llw teyrngarwch i'w gilydd na'r sefydliad ac roedd yn drosedd o dan eu rheolau i ddangos ffafriaeth amhriodol tuag at Seiri Rhyddion eraill. Serch hynny, lle y bo'n berthnasol, byddent yn annog aelodau i ddatgan eu haelodaeth er mwyn osgoi unrhyw amgyffrediadau negyddol a allai fod yn ddinistriol. Daeth un o Bwyllgorau Dethol Tþ'r Cyffredin i'r casgliad nad oedd aelodaeth o'r Seiri Rhyddion yn achosi unrhyw wrthdaro, er enghraifft, â'r llw a gymerir gan Swyddogion yr Heddlu.
* cyhoeddwyd camau disgyblu yn erbyn aelodau. Cytunodd Mr Hamill i ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch nifer y Seiri Rhyddion a ddisgyblwyd am ddangos ffafriaeth amhriodol tuag at aelodau eraill.
* roedd ethos y Cynulliad Cenedlaethol yn un o fod yn agored, cynhwysedd a chyfle cyfartal. Ymddengys fod ethos y Seiri Rhyddion yn mynd yn groes i hynny.
* deuai'r ysgogiad i ddod yn un o'r Seiri Rhyddion gan unigolion. Nid oedd y Seiri Rhyddion yn recriwtio fel y cyfryw. Roedd pobl yn cael eu cymeradwyo i fod yn aelodau drwy gynnal pleidlais gudd o aelodau'r gyfrinfa ar ôl iddynt gael eu cynnig gan aelodau presennol. Y prif gymhwyster ar gyfer bod yn aelod oedd cred mewn Bod Mawr. Ni wahaniaethwyd rhwng gwahanol grefyddau. Dim ond dynion a oedd yn aelodau o Brif Gyfrinfa Unedig Lloegr ond roedd prif gyfrinfeydd yn y Deyrnas Unedig ar gyfer merched yn unig.

16. Gwahoddodd y Cadeirydd David Lambert i roi sylwadau ar bapur STD 05-01(2), a oedd yn nodi manylion un o ddyfarniadau'r ECHR, ac i ymateb i gyflwyniad Mr Hamill mewn perthynas â'r ddau ddyfarniad a wnaed gan yr ECHR.

17. Eglurodd David Lambert, yn yr amser a fu ar gael ers y dyfarniadau, mai dim ond ar un o'r ddau achos y bu'n bosibl darparu cyngor i'r Pwyllgor. Felly, rhoddodd gyngor ar yr achos a ymddangosai'n fwyaf perthnasol i sefyllfa'r Cynulliad. Roedd yr achos hwn yn awgrymu nad oedd y gofyniad i gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion yn achosi niwed ac nad oedd felly yn amharu ar hawl yr achwynydd i breifatrwydd.

18. Fodd bynnag, derbyniodd Mr Lambert y gallai'r ddau achos effeithio ar sefyllfa'r Cynulliad. Roedd angen ystyried manylion llawn y ddau achos, gan gynnwys unrhyw egwyddorion mwy cyffredinol yn deillio ohonynt, yn ofalus. Cytunodd i ystyried y materion hyn, a safbwyntiau Mr Bevan a Mr Hamill, gan gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor.

19. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Bevan a Mr Hamill am fynychu'r cyfarfod. Dywedodd y byddai'r Pwyllgor yn awr yn gofyn am bapur pellach gan yr Ysgrifenyddiaeth cyn dod i gasgliad ar y mater. Byddai angen i'r papur gynnwys cyngor ar:

- y ddau achos diweddar yn yr ECHR - gan gynnwys pwyntiau a wnaed yng nghyflwyniad Mr Hamill;
- pa un a yw sefyllfa’r Seiri Rhyddion yn unigryw ac, yn sgîl hynny, a yw eu “trin yn wahanol” yn rhesymol; a
- pa un a oedd y canllawiau i Awdurdodau Lleol yn gosod cynsail ar gyfer gweithdrefnau’r Cynulliad Cenedlaethol.

Er na fyddai’r Seiri Rhyddion yn cael gwahoddiad i roi tystiolaeth bellach ar lafar ger bron y Pwyllgor, gofynnodd i Mr Hamill a Mr Bevan anfon unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig bellach yn deillio o’r cyfarfod at yr Ysgrifenyddiaeth. Byddai’r Pwyllgor yn ceisio dod i gasgliad ar ddechrau’r Flwyddyn Newydd.

*Gweithredu:* Yr Ysgrifenyddiaeth i ddarparu papur i’r Pwyllgor i’w ystyried yn ei gyfarfod nesaf.

**Eitem 5: Buddiannau Anuniongyrchol**

Papurau STD 05-01(03)
Papurau STD 05-01(04)

21. Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin, cymeradwyodd y Pwyllgor bapur ar gyfer y Pwyllgor Busnes yn crynhoi casgliadau ac argymhellion yr adolygiad o fuddiannau anuniongyrchol. Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 30 Hydref lle y rhoddwyd ystyriaeth i’r mater.

22. Ystyriwyd safbwyntiau’r Pwyllgor Busnes ac fe’u hymgorfforwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor i’r Cynulliad (STD 05-01(3)). Gwnaeth yr adroddiad hwn argymhelliad clir y dylid diwygio Rheol Sefydlog 4 i gael gwared ar y gofyniad i gofrestru buddiannau ‘anuniongyrchol’.

23. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a’i gymeradwyo yn amodol ar rai mân newidiadau i’r testun.

24. Yn awr byddai angen i’r adroddiad gael ei gyflwyno i’r Cynulliad ei ystyried mewn Cyfarfod Llawn. Ni phennwyd dyddiad ar gyfer gwneud hyn hyd yma ond y nod fyddai ei drafod cyn gynted â phosibl yn 2002. Ar ôl i’r adroddiad a’r newidiadau dilynol i’r Rheolau Sefydlog gael eu cymeradwyo mewn Cyfarfod Llawn, byddai trefniadau’n cael eu rhoi ar waith ar gyfer diwygio’r canllawiau cysylltiedig.

*Gweithredu:* Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud trefniadau ar gyfer yr adroddiad, a’r newidiadau dilynol i’r Rheolau Sefydlog, i gael eu trafod mewn Cyfarfod Llawn.

**Eitem 6: Adolygiad o’r Gweithdrefnau ar gyfer Safonau: Penodi Ymgynghorydd Arbenigol**

Eitem ar Lafar gan y Clerc

25. Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor i benodi ymgynghorydd arbenigol i ddatblygu'r adolygiad o weithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer safonau ymddygiad. Cyfarfu'r panel penodi ar 7 Tachwedd a phenodwyd yr Athro Diana Woodhouse o Brifysgol Oxford Brookes. Roedd yr Athro Woodhouse yn gyfreithwraig gyfansoddiadol gyda chefndir cryf ym maes safonau. Oherwydd ymrwymiad blaenorol ni allai fod yn bresennol yn y cyfarfod ond roedd yn gobeithio'n fawr y gallai fynychu'r cyfarfod nesaf lle y byddai'n amlinellu ei rhaglen waith a'i syniadau cychwynnol i'r Pwyllgor.

**Eitem 7: Unrhyw Fusnes Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

*Dyddiad y Cyfarfod Nesaf*

26. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 13 Chwefror 2002. Gellid cynnal cyfarfod hefyd ddydd Mercher 16 Ionawr os byddai angen gwrandawiad cwyno llafar.

**Eitem 8: CO15-01**

27. Cynhaliwyd y gwrandawiad mewn sesiwn caeedig. Cyflwynir crynodeb o'r safbwyntiau a'r casgliadau y daethpwyd iddynt i'r Cynulliad maes o law.

***Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau***